Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder

## Ffurflen Gofnodi

**Trosolwg**

**Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyflwyno’r ffurflen hon**

- **Er gwybodaeth ac er mwyn trafod y goblygiadau**

**Asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau'r ddeddfwriaeth hon ar y system gyfiawnder yw**

- **Bod yr effaith bosibl yn fach**

**Dyma’r rheswm pam:**

Gallai'r Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) effeithio ar nifer yr apeliadau a wrandewir gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf, yr Uwch Dribiwnlys, y Tribiwnlys Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i'r amgylchiadau a allai arwain at wneud y cyfryw apeliadau godi yn aml, yn enwedig am fod gweithredwyr bysiau eisoes yn gyfarwydd â'r angen i weithredu o fewn cwmpas deddfwriaeth berthnasol.

**1.** Teitl y Bil

| | |
|---|---|
| 1.1. Teitl drafft y Bil | Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) |

## 2. Manylion cyswllt yr arweinydd polisi

| | |
|---|---|
| 2.1. Enw / Teitl swydd | [redacted] |
| 2.2. Adran / swyddfa / maes busnes | [redacted] |
| 2.3. Rhif ffôn | [redacted] |
| 2.4. Cyfeiriad e-bost | [redacted] |
| 2.5. a) Dyddiad cyflwyno'r ffurflen<br>2.6. b) Angen ymateb erbyn pryd? | Dyddiad Cyflwyno:<br>27 Ionawr 2025<br><br>Gofynnir am ymateb erbyn:<br><br>Cyn gynted â phosibl |

## 3. Manylion cyswllt eraill

| | |
|---|---|
| 3.1. Swyddog Cyswllt Cyfreithiol | [redacted] |
| 3.2. Rhif ffôn | [redacted] |
| 3.3. Cyfeiriad e-bost | [redacted] |

## 4. Gwybodaeth gyffredinol

4.1. Rhowch a) manylion cyswllt eich swyddog arweiniol ar gyfer gwerthuso'r costau neu'r arbedion

a;

b) manylion cyswllt yr arweinydd Polisi Cyfiawnder, os ydynt yn hysbys.

| | |
|---|---|
| [redacted] | b) [redacted] |

4.2. Ydych chi wedi rhoi gwybod i'r swyddfa farnwrol am eich cynigion drwy gwblhau Cyfarwyddyd Desg 7? (gofynnwch am gyngor gan eich cynghorwyr cyfreithiol)

☒ Ydw (ar y gweill)

☐ Nac ydw (esboniwch pam)

4.3. Yn fras, beth yw eich cynnig? (dim mwy na hanner tudalen) *(Darperir yr wybodaeth hon i helpu swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) i ddeall bwriad y newid arfaethedig er mwyn iddynt allu rhoi sylwadau mor llawn ag y bo modd ar ei effeithiau posibl*).

Bydd y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i nodi gwasanaethau sy'n ofynnol at y diben o ddarparu trafnidiaeth ddiogel, integredig, gynaliadwy, effeithlon ac economaidd yng Nghymru. Bydd yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru sicrhau'r gwasanaethau bysiau lleol hyn, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol. Gellir sicrhau'r gwasanaethau bysiau lleol yn y tair ffordd a restrir isod, neu drwy ddibynnu ar fathau penodol o wasanaethau sy'n bodoli eisoes.

a. **Masnachfreinio** – llunio contractau gwasanaethau bysiau lleol â gweithredwyr er mwyn darparu gwasanaethau yn unol â chyfraith caffael ehangach.
b. Gwasanaethau bysiau lleol yn cael eu **darparu'n uniongyrchol** gan Weinidogion Cymru.
c. **Trwyddedu** – caiff gweithredwyr wneud cais i Weinidogion Cymru am drwyddedau gwasanaethau bysiau lleol i ddarparu gwasanaethau bysiau lleol.

Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd lunio a chyhoeddi Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru ("y Cynllun"), a fydd yn nodi'r llwybrau a'r prif fannau esgyn a mannau disgyn y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn ofynnol at ddibenion darparu'r gwasanaethau bysiau lleol hynny.

I'r graddau y bo'n berthnasol at ddibenion y ffurflen hon, caiff darpariaeth benodol ei chynnwys er mwyn:

a. Galluogi Gweinidogion Cymru i roi trwyddedau gwasanaethau bysiau lleol, gosod amodau ar y trwyddedau a dirymu neu atal trwyddedau am resymau penodol. Bydd hawl i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn y canlynol: gwrthodiad Gweinidogion Cymru i ddyfarnu trwydded, amodau sy'n gysylltiedig â thrwydded, penderfyniad i ddirymu trwydded, penderfyniad i atal trwydded, hyd y cyfnod atal, neu'r amodau y mae'n ofynnol eu bodloni cyn y daw'r cyfnod atal i ben. Yna, caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf gadarnhau'r penderfyniad sy'n destun yr apêl, ei ddiddymu neu gyhoeddi penderfyniad arall yn ei le.

b. Gwahardd gwasanaethau bysiau lleol ac eithrio'r rhai a ddarperir yn uniongyrchol, neu o dan gontract, trwydded neu eithriad penodedig arall. Cyfeirir at hyn fel "y cyfyngiad". Bydd y Bil yn ei gwneud yn bosibl i sancsiynau gael eu gosod os bydd gwasanaethau yn cael eu gweithredu yn groes i'r cyfyngiad. Bydd hawl i apelio i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn sancsiynau o'r fath. Yna, caiff yr Uwch Dribiwnlys gadarnhau'r gorchymyn sy'n darparu ar gyfer y sancsiwn, ei ddiddymu neu gyhoeddi gorchymyn arall yn ei le.

c. Galluogi Gweinidogion Cymru i roi hysbysiadau i bersonau penodol, a gwneud rheoliadau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth benodedig am wasanaethau bysiau lleol gael ei darparu i Weinidogion Cymru. Bydd y Bil yn ei gwneud yn bosibl i sancsiynau gael eu gosod am fethu â chydymffurfio â hysbysiad neu'r rheoliadau. Bydd hawl i apelio i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn y sancsiynau. Yna, caiff yr Uwch Dribiwnlys gadarnhau neu ddiddymu'r gorchymyn sy'n darparu ar gyfer y sancsiwn neu gyhoeddi gorchymyn arall yn ei le.

d. Yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau bennu amgylchiadau sy'n codi a ganlyniad i'r Bil y dylid eu trin fel "trosglwyddiadau perthnasol" fel y bydd Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 ("TUPE") yn gymwys yn yr achosion hynny. Mae TUPE ei hun yn darparu ar gyfer gwneud cwynion i'r Tribiwnlys Cyflogaeth a'r

Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth o dan amgylchiadau penodol. Er nad yw'r Bil ei hun yn effeithio ar hawliau apelio o dan TUPE, mae'n cadarnhau amgylchiadau lle y bydd TUPE (ac felly'r hawliau apelio hynny) yn gymwys.

4.4. Nodwch pryd y byddwch yn cynnal adolygiad ôl-weithredu o'r ddeddfwriaeth hon a'r camau gorfodi sy'n deillio ohoni.

Cynhelir asesiad o werthusadwyedd cyn rhoi'r cynllun ar waith er mwyn datblygu argymhellion ynghylch rhaglen briodol i werthuso'r ffordd mae'r Bil yn cael ei roi ar waith a'i effaith. Mae hyn yn cynnwys datblygu theori newid gadarn a model rhesymeg manwl, gan nodi pa allbynnau, canlyniadau ac effeithiau a disgwylir ac, yna, brofi a mireinio'r cysylltiadau tybiedig rhwng y model ‘masnachfreinio’ a'r effeithiau a ragwelir. Bydd yr asesiad o werthusadwyedd yn nodi manylion am sut y caiff y meini prawf hyn eu monitro a'u gwerthuso.

Fel rhan o hyn, cynhelir proses werthuso annibynnol yn ystod y 2-5 mlynedd gyntaf ar ôl i'r Bil ddod yn gyfraith. Bydd hyn yn hwyluso'r broses o adrodd y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r rhaglen i gyflwyno ‘masnachfreinio’ gwasanaethau bysiau. Dylai'r gwerthusiad o'r broses ganolbwyntio ar y ffordd y mae'r model masnachfreinio wedi'i roi ar waith ym mhob ardal a rôl partneriaid allweddol o ran cyflawni ei amcanion, gan edrych yn benodol ar y rôl y mae'r cyfnod ‘pontio’ wedi'i chael ar y rhai y mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt e.e. gweithredwyr bysiau ac awdurdodau lleol.

At hynny, cynhelir gwerthusiad annibynnol o effeithiau yn ystod y cyfnod rhwng tair blynedd a saith mlynedd ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael Cydsyniad Brenhinol i weld a yw'r ddeddfwriaeth wedi cael yr effaith a ddymunir ar amcanion. Er enghraifft, mae amcanion byrdymor yn cynnwys cynllunio gwasanaethau bysiau yn well ac amserlenni cydgysylltiedig.

Gan adeiladu ar elfen effaith y gwerthusiad, caiff asesiad gwerth am arian o'r ddeddfwriaeth newydd ei amcangyfrif. Bydd yr asesiad hwn ceisio cynnwys y budd i ddefnyddwyr posibl o ran arbedion amser, costau ac ansawdd y siwrneiau a fydd yn deillio o ail-ddylunio’r rhwydwaith, tocynnu integredig, gwasanaethau a ffactorau eraill. Disgwylir i effeithiau cymdeithasol eraill sy'n ymwneud â thagfeydd, iechyd, damweiniau, allyriadau carbon, llygredd aer ac effeithiau sŵn hefyd gael eu cynnwys. Caiff costau refeniw a chyfalaf y system ar gyfer sicrhau gwasanaethau bysiau eu hasesu yn erbyn y ddarpariaeth bresennol fel cymharydd llinell sylfaen neu fusnes fel arfer . Disgwylir i'r asesiad gwerth am arian gael ei gynnal rhwng tair blynedd a 10 mlynedd ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol.

Nid yw'r Adolygiad Ar Ôl Gweithredu yn cyfeirio'n benodol at gamau gorfodi penodol. Fodd bynnag, caiff hyn ei ystyried fel rhan o'r asesiad o werthusadwyedd

4.5. A yw'r cynnig deddfwriaethol hwn yn debyg mewn unrhyw ffordd i ddeddfwriaeth sy'n cael ei chyflwyno yn Lloegr? Os ydyw, enwch y ddeddfwriaeth honno a nodwch isod unrhyw ffyrdd y bydd y ddeddfwriaeth a gyflwynir yng Nghymru yn wahanol.

Os nad oes gwahaniaeth sylweddol rhwng y ddeddfwriaeth hon a deddfwriaeth Lloegr, mae’n bosibl na fydd angen cwblhau pob rhan o'r ffurflen.

Cafodd pwerau masnachfreinio bysiau i awdurdodau cyfun maerol yn Lloegr, y tu allan i Lundain, eu creu yn Neddf Gwasanaethau Bysiau 2017. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyflwyno is-ddeddfwriaeth yn ddiweddar sy'n rhoi pwerau newydd i awdurdodau eraill ledled Lloegr weithredu eu gwasanaethau bysiau eu hunain. Mae hyn yn golygu y gall arweinwyr lleol ledled y wlad ddarparu gwasanaethau mewn ffordd sy'n diwallu anghenion eu cymunedau.

Yn ogystal â hyn, bwriedir i Fil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2) Llywodraeth y DU symleiddio'r broses o fasnachfreinio a hwyluso masnachfreinio mwy o wasanaethau bysiau ledled Lloegr, yn ogystal â dileu cyfyngiadau presennol ar gyrff penodol sy'n eu hatal rhag sefydlu cwmnïau bysiau cyngor Bwriedir hefyd gefnogi'r cynghorau hynny nad ydynt am fasnachfreinio gwasanaethau yn eu hardaloedd ond sydd am gael mwy o hyblygrwydd i'w rheoli.

Yng Nghymru, rydym yn mabwysiadu dull gwahanol o sicrhau gwelliannau i'n rhwydwaith gwasanaethau bysiau drwy ddeddfu ar gyfer model cynllunio a chyflawni integredig ar lefel genedlaethol.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cysylltu â chydweithwyr yn yr Adran Drafnidiaeth i rannu arferion da a deall sut y bydd y ddau fodel yn gweithio mewn perthynas â gwasanaethau trawsffiniol.

Er bod y dull gweithredu yng Nghymru yn wahanol i'r un sydd wedi'i fabwysiadu yn Lloegr, mae ein hamcanion yn debyg, gan gynnwys yr awydd i ddarparu cyfraniad mwy lleol at y gwaith o gynllunio rhwydweithiau bysiau a deddfu i ddileu cyfyngiadau presennol ar awdurdodau lleol sy'n eu hatal rhag sefydlu cwmnïau bysiau.

4.6. Nodwch deitlau unrhyw ddeddfwriaeth arall berthnasol. Sut rydych chi'n disgwyl i ddarpariaethau perthnasol y ddeddfwriaeth (newydd) hon gael eu rhoi ar waith?

Os na ddarperir ar gyfer cychwyn ar ddyddiad penodol yn y Bil, cynigir y caiff y darpariaethau yn y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) eu cyflwyno ledled Cymru fesul cam yn ddaearyddol gan ddefnyddio gorchmynion cychwyn.

Er bod y rhan fwyaf o'r darpariaethau yn y Bil yn rhai annibynnol, mae'n gwneud rhai diwygiadau i Ddeddf Trafnidiaeth 1985, mewn perthynas â chofrestru, a dyletswyddau a phwerau awdurdodau lleol mewn perthynas â gwasanaethau lleol.

4.7. Nodwch a) y dyddiad y disgwylir i’r newidiadau deddfwriaethol ddod i rym a b) y dyddiad pan fydd yr effaith gyntaf a ragwelir ar y system gyfiawnder yn digwydd.

| |
|---|
| a) Disgwylir i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2026. Er bod disgwyl i rai o'r dyletswyddau allweddol sy'n gysylltiedig â datblygu'r Cynllun ddod i rym ddeufis yn ddiweddarach, mae swyddogion yn rhagweld y caiff darpariaethau allweddol a allai effeithio ar y system gyfiawnder eu cychwyn drwy orchymyn mewn pryd i'r contractau cyntaf gael eu rhoi ar waith, y disgwylir i hynny ddigwydd yn 2027 mewn rhai rhannau o Gymru.<br><br>b) Mae'n anodd nodi'n bendant ddyddiad pryd y bydd yr effaith ddisgwyliedig gyntaf ar y system gyfiawnder yn codi, yn arbennig gan mai ar sail apeliadau y bydd y brif effaith ar y system gyfiawnder. Mae swyddogion yn rhagweld lefelau isel o apeliadau yn seiliedig ar niferoedd o dan ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau bysiau yn Llundain. Gallai'r effaith ar y system gyfiawnder godi wrth i'r model masnachfreinio gael ei gyflwyno, sy'n golygu y gallai fod rhywfaint o effaith ar y system gyfiawnder o 2027 ymlaen. |

4.8. Os ydych yn newid neu'n cyflwyno trosedd, sancsiwn neu gosb, ar ba un neu ar ba rai o'r grwpiau canlynol y bydd y cynnig yn effeithio, ac o dan ba amgylchiadau? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

☒Unigolion
☒ Sefydliadau Preifat (ee Busnesau)
☒ Sefydliadau Preifat (ee Adrannau'r Llywodraeth)

| |
|---|
| Gallai unrhyw unigolion, neu fusnesau preifat neu fusnesau trefol sy'n methu â chydymffurfio â gofynion penodedig yn y Bil wynebu mesurau gorfodi. |

4.9. Ai dim ond yng Nghymru y bydd eich deddfwriaeth yn cael effaith neu a ydych chi’n cydweithio â gweinyddiaethau eraill? Ticiwch bob un sy'n berthnasol a rhowch fanylion bras fel y bo’n briodol, gan gynnwys a fydd eich cynnig yn creu cyfreithiau gwahanol yng Nghymru o gymharu â Lloegr, yr Alban a / neu Ogledd Iwerddon.

Sylwer: Heblaw yn achos y tribiwnlysoedd datganoledig, dim ond yng Nghymru a Lloegr y mae’r MoJ yn gweinyddu’r system gyfiawnder. Siaradwch yn uniongyrchol ag uned ddatganoli'r MoJ os ydych yn rhagweld y gallai eich cynnig effeithio ar lysoedd neu garchardai yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon.

☒Cymru yn unig
☐Lloegr
☐Yr Alban
☐Gogledd Iwerddon
☐ Arall (nodwch)

Dim ond yng Nghymru y bydd y ddeddfwriaeth yn gymwys, er yr effeithir ar wasanaethau bysiau trawsffiniol.

Bydd y ddeddfwriaeth yn arwain at wasanaethau bysiau wedi'u masnachfreinio yn debyg i'r rhai sydd ar waith yn Llundain. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau yn wahanol iawn i'r rhai sydd ar waith mewn rhannau o Loegr. Er enghraifft, mae'r gyfundrefn fasnachfreinio yn Llundain yn gweithredu o dan Ddeddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999 ac mae adran 180 o'r ddeddf honno yn cynnwys trosedd o dorri'r ddarpariaeth sy'n cyfateb i'r cyfyngiad yn y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru). Nid yw'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn cynnwys trosedd danategol gyfatebol.

Mae swyddogion o'r farn y bydd sancsiynau sifil yn ddigonol i atal troseddu ac y byddent yn diogelu'r rhai sy'n gweithredu'n gyfreithlon o dan y gyfundrefn bysiau reoleiddiedig newydd.

4.10. Os gallai eich deddfwriaeth effeithio'n uniongyrchol ar bobl sy'n ymweld â Chymru neu ar bobl eraill nad ydynt fel arfer yn byw yng Nghymru, neu os yw eich deddfwriaeth yn wahanol iawn i'r ddeddfwriaeth sydd yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon;-

a) pa drefniadau rydych chi wedi'u gwneud i sicrhau eich bod yn gwella ymwybyddiaeth yn barhaus ynglŷn â’r dull gweithredu gwahanol yng Nghymru o ran deddfwriaeth sy’n ymwneud â'r mater hwn?

b) beth fydd y goblygiadau i’r asiantaethau gorfodi, o ran cymryd camau yn erbyn unigolion nad ydynt fel arfer yn byw yng Nghymru?

Gallai'r ddeddfwriaeth arfaethedig effeithio ar yr ymwelwyr rheolaidd hynny â Chymru sy'n defnyddio gwasanaethau trawsffiniol os bydd y Cynllun yn diwygio'r llwybrau ar ochr Cymru i'r ffin. Diben y ddeddfwriaeth arfaethedig yw gwella effeithlonrwydd a chysylltedd gwasanaethau ac, felly, mae'n debygol y bydd yr effaith yn un gadarnhaol.

Ni fyddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig, o ran sancsiynau, yn effeithio'n uniongyrchol ar ymwelwyr â Chymru. Byddai'r sancsiynau yn effeithio ar weithredwyr a allai fod wedi'u lleoli ledled y DU ond er mwyn i'r ddeddfwriaeth effeithio arnynt byddai angen iddynt fod yn darparu gwasanaethau bysiau yng Nghymru.

Mae gweithredwyr a darpar weithredwyr yng Nghymru wedi cael cyfle i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru er mwyn cael gwybod am y dull deddfwriaethol arfaethedig a sut y byddai'n cael ei roi ar waith. Fel rhan o'r gweithgarwch ymgysylltu hwn, caiff gweithredwyr a darpar weithredwyr eu hysbysu am y cyfyngiad a'r ddarpariaeth orfodi gysylltiedig. Fel y nodwyd uchod, mae gweithredwyr eisoes yn gyfarwydd â'r angen i ddarparu gwasanaethau bysiau o fewn cwmpas deddfwriaeth berthnasol a'r risg o sancsiynau os na fyddant yn gwneud hynny.

4.11. Beth yw'r opsiynau sy'n cael eu hystyried a sut mae hyn yn newid y sefyllfa bresennol?

Bydd y ddeddfwriaeth yn creu system newydd ar gyfer gweithredu gwasanaethau bysiau lleol yng Nghymru ac, felly, bydd y sefyllfa bresennol yn newid gryn dipyn.
Yr opsiynau o ran gorfodi sydd wedi'u hystyried yw:

1) Gwneud dim – pe na byddai unrhyw gamau gorfodi yn cael eu cymryd yn erbyn y rhai a fyddai'n torri'r cyfyngiad a'r darpariaethau o ran data, yna byddai hyn yn tanseilio nod ac amcanion y Bil.

2) Gosod sancsiynau troseddol – Ystyriodd swyddogion a ddylid gosod sancsiwn troseddol ar y rhai a fyddai'n torri'r cyfyngiad neu'r gofynion o ran data, ond ystyriwyd bod hyn yn anghymesur â'r drosedd. Arweiniodd hyn at y casgliad y byddai sancsiynau sifil yn fwy priodol o ran bod yn fwy cymesur â'r drosedd ac yn llai beichus i'w defnyddio.

3) Gosod cosbau ariannol – Dyma'r dull gweithredu arfaethedig am mai hwn yw'r un mwyaf cymesur. Mae cosbau ariannol yn fath cyffredin o gosb a ddefnyddir yn helaeth yn y diwydiant.

4.12. Os ydych chi'n creu cosb neu sancsiwn sifil newydd, pa lys neu dribiwnlys a ddylai ddelio â hyn yn eich barn chi?

Caiff comisiynydd traffig wneud gorchmynion sy'n gosod sancsiynau ar y rhai sy'n gweithredu gwasanaeth yn groes i'r cyfyngiad neu sy'n methu â chydymffurfio â'r gofynion i ddarparu gwybodaeth. Byddai apeliadau yn erbyn gan orchmynion o'r fath gan gomisiynydd traffig yn cael eu cyfeirio at yr Uwch Dribiwnlys.

Mae swyddogion o'r farn mai'r Uwch Dribiwnlys yw'r corff apeliadol mwyaf priodol yn amgylchiadau apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan gomisiynydd traffig. Mae hyn yn adlewyrchu sefyllfa adran 155(6) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 yn ogystal â deddfwriaeth arall lle mae'r hawl i apelio yn erbyn penderfyniad comisiynydd traffig yn cael ei gyfeirio yn yr un modd at yr Uwch Dribiwnlys.

**Troseddau a Chosbau a Sancsiynau Sifil**

4.13. Pa rai o'r canlynol rydych chi'n eu creu / diwygio? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

☒ Sancsiynau Sifil
☒ Cosbau Penodedig
☐ Gorchmynion Sifil
☐ Sancsiynau Troseddol
☐ Troseddau
☐ Arall (nodwch)

4.14. Os ydych chi'n creu trosedd, pa un o'r rhain yw hi?

☐ Trosedd ddiannod yn unig (yr achos yn cael ei glywed gerbron mainc o ynadon lleyg / barnwr yn unig)
☐ Trosedd neillffordd
☐ Trosedd dditiadwy yn unig (yr achos yn cael ei glywed gerbron barnwr a rheithgor)

Mewn achosion lle bwriedir i'r gosb uchaf fod yn ddirwy ddiderfyn, ac y gellir cyfiawnhau trosedd neillffordd, esboniwch pam yr ystyrir nad yw trosedd ddiannod yn unig yn briodol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol os rhagwelir na fydd llawer o achosion neu ddim achosion o gwbl.

Dd/G. Nid oes unrhyw drosedd yn cael ei chreu.

4.15. Os ydych chi'n creu darpariaethau a fydd yn darparu ar gyfer sancsiynau sifil, a yw Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol?

Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt â chydweithwyr yn yr Adran Drafnidiaeth.

4.16. Gorfodi

Yn yr adran hon, mae gofyn ichi ddangos sut y bydd eich deddfwriaeth yn cael ei gorfodi a pha drafodaethau penodol rydych wedi'u cynnal ag asiantaethau gorfodi. Rhaid ichi ddangos eich bod wedi sefydlu a fydd mwy o angen neu lai o angen am gamau gorfodi yn sgil eich deddfwriaeth, beth fydd y goblygiadau o ran costau yn sgil y camau gorfodi a sut y bydd unrhyw gostau newydd neu ychwanegol yn cael eu cyllido.

**Ydych chi wedi rhoi gwybod i Uned Gyswllt yr Heddlu yn Llywodraeth Cymru am eich cynigion? PLU@llyw.cymru**

☐ Ydw
☒ Nac ydw (esboniwch pam yn y blwch isod)

**Os ydych chi o'r farn y bydd angen erlyniad mewn llys troseddol, a ydych chi wedi ymgynghori â Gwasanaeth Erlyn y Goron? Cymru-Wales.ABC@cps.gov.uk**

☐ Ydw
☒ Nac ydw (esboniwch pam yn y blwch isod)

Nid oes trosedd yn cael ei chreu yma. Felly, nid yw'n berthnasol ymgynghori ag Uned Gyswllt yr Heddlu yn Llywodraeth Cymru na Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Gweinidogion Cymru a chomisiynwyr traffig fydd yn gyfrifol am orfodi'r Bil.

4.17. Sawl achos rydych chi'n ei ragweld bob blwyddyn? Rhowch fanylion unrhyw dystiolaeth am y tybiaethau y mae'r amcangyfrifon yn seiliedig arnynt

Mae nifer yr achosion y flwyddyn a ragwelir yn isel.

Gwnaed y dybiaeth hon yn seiliedig ar adran 155 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000, rydym wedi'i defnyddio at ddibenion cymharu am fod y darpariaethau yn debyg i'r darpariaethau yn ein deddfwriaeth. Mae adran 155 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 yn nodi'r sancsiynau y gall y Comisiynydd Traffig eu gosod ar weithredwyr o dan amgylchiadau tebyg i'n deddfwriaeth.

Rydym yn amcangyfrif y bydd nifer yr achosion a fydd yn codi bob blwyddyn o dan ein deddfwriaeth rhwng 0 ac 8. Mae'r dybiaeth hon yn seiliedig ar ystadegau a gymerwyd o ystadegau adroddiadau blynyddol 2022-2023 a 2023-2024 comisiynwyr traffig. (Comisiynwyr Traffig: adroddiad blynyddol 2022-2023 - GOV.UK (www.gov.uk) a (Comisiynwyr Traffig: adroddiad blynyddol 2023-2024 - GOV.UK (www.gov.uk).

Rhwng 2022 a 2023, dim ond dwy gosb a roddwyd o ran adran 155 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000, gyda'r naill achos yng Nghymru a'r llall yn Ardal Draffig Gorllewin Lloegr. . Hefyd rhwng 2023 a 2024 rhoddwyd tair cosb o dan adran 155 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000, gydag un achos yn yr Alban a'r lleill yn Ardal Draffig Gorllewin Lloegr ac Ardal Draffig Gorllewin Canolbarth Lloegr. Rhwng 2021 a 2022, ni roddwyd unrhyw gosbau o dan adran 155. Fodd bynnag, wrth ystyried yr ystadegau hyn, mae'n bwysig nodi y gallai'r ystadegau o 2021/2023 fod yn is gan y byddai pandemig COVID-19, a effeithiodd ar y diwydiant bysiau/trafnidiaeth, wedi effeithio arnynt.

Felly, efallai y gwelwn fwy o gosbau yn cael eu rhoi o dan ein deddfwriaeth wrth i'r diwydiant bysiau ddychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig. Rhwng 2018 a 2019, cofnodwyd 11 o achosion o dan adran 155 o'r Ddeddf. Am fod y diwydiant trafnidiaeth/bysiau wedi newid mewn ymateb i'r pandemig, mae'n anodd rhagweld yr union dueddiadau a fydd yn codi yn y dyfodol.

4.18. Ydych chi'n disgwyl i'r achosion gael eu cynnal mewn Llys Ynadon, Llys y Goron neu Lys Sifil? Beth fydd y cyfrannau?

Dd/G

4.19. Nodwch uchafswm y cosbau perthnasol o ran dirwy a/neu garchar. Pan fo troseddau'n cynnwys cosbau o ddirwy neu garchar, nodwch ac eglurwch yr amgylchiadau a fyddai'n arwain at ddedfryd o garchar wedi'r euogfarn, a chyfran y cosbau o garchar a fydd ar y lefel uchaf bosibl.

Ni fydd y gosb uchaf y gall comisiynydd traffig ei rhoi i weithredwr am dorri'r cyfyngiad neu'r gofynion o ran gwybodaeth yn gallu bod yn uwch na'r terfyn uchaf.

Y terfyn uchaf yw'r swm a gyfrifir drwy luosi cyfanswm y cerbydau y mae'r person wedi'i drwyddedu i'w defnyddio o dan bob un o'r trwyddedau gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus (PSV) a ddelir gan y person ar yr adeg berthnasol â naill ai—

(i) swm a bennir mewn rheoliadau, neu

(ii) os na fydd unrhyw swm wedi'i bennu felly, £550;

| |
|---|
| Os na fydd y gweithredwr wedi'i drwyddedu i ddefnyddio cerbydau o dan drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus ar yr adeg berthnasol, yna y terfyn uchaf yw swm a bennir mewn rheoliadau neu, os na fydd unrhyw swm wedi'i bennu felly, £550.<br><br>Yr adeg berthnasol yw: yng nghyd-destun y cyfyngiad, yr adeg y gosodir y gorchymyn sy'n gosod y sancsiwn; yng nghyd-destun hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu, yr adeg yr rhoddwyd yr hysbysiad; ac yng nghyd-destun rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu, yr adeg y methodd y person â chydymffurfio â'r rheoliadau.<br><br>Os bydd y person yn methu â chydymffurfio â'r gosb (neu unrhyw orchymyn arall y mae'r comisiynydd traffig wedi'i osod), caiff y comisiynydd traffig roi cosb ychwanegol o unrhyw swm sy'n briodol ym marn y comisiynydd traffig, ond ni ddylai fod yn fwy na 110% o'r terfyn uchaf. |

4.20. Rhowch fanylion unrhyw droseddau a / neu gosbau procsi neu bresennol y mae'r cosbau arfaethedig yn seiliedig arnynt. Os ydych yn adlewyrchu / cymharu deddfwriaeth bresennol, sicrhewch eich bod yn troi at y fersiynau diweddaraf o'r ddeddfwriaeth (drwy Westlaw, y gwasanaeth ymchwil cyfreithiol ar-lein) gan nad yw'r rhain ar gael ar-lein bob amser. Gweler tudalen 8 o'r canllawiau JSII ar sut i gael data yn ymwneud â nifer yr achosion a gyflwynwyd o dan y ddeddfwriaeth yr ydych wedi'i nodi.

| Deddfwriaeth / Adran | Trosedd | Nifer yr achosion |
|---|---|---|
| Adran 155 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 – Sancsiynau | Pan fo comisiynydd traffig wedi'i fodloni bod gweithredwr gwasanaeth lleol, heb esgus rhesymol, wedi methu â chydymffurfio â nifer o ddarpariaethau penodedig, caiff y comisiynydd traffig wneud un neu fwy o orchmynion o dan is-adran (1A).<br><br>Mae is-adran (1A) yn darparu ar gyfer nifer o orchmynion gan gynnwys “an order that the operator pay a penalty of such amount as is determined in accordance with subsection (3)”.<br><br>Mae is-adran (3) yn darparu, “The amount mentioned in subsections (1A)(a) and (b) and (1C) is such amount as the traffic commissioner thinks fit in all the circumstances of the case, but must not exceed —<br><br>(a) £550, or<br><br>(b) such other amount as the Secretary of State (as respects England) or the National | 2022-2023 = 2 (un yng Nghymru)<br><br>2021-2022 = 0<br><br>2020-2021 = 0<br><br>2019-2020 = 0<br><br>2018-2019 = 11 (Tri yng Nghymru) |

| | | |
|---|---|---|
| | Assembly for Wales (as respects Wales) may by order specify,<br><br>multiplied by the total number of vehicles which the operator is licensed to use under all the PSV operator's licences held by him." | |

4.21. Os ydych chi'n ystyried creu trosedd newydd, neu ddiwygio trosedd sy'n bodoli eisoes, cadarnhewch fod y cynigion ar gyfer y troseddau a'r cosbau yn cyd-fynd â chanllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

Os caiff deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes ei diwygio, rhowch fanylion pellach.

| |
|---|
| Dd/G |

4.22. Beth fydd y goblygiadau tymor byr, tymor canolig a gydol oes i unigolyn a gaiff ei ganfod yn euog o'r drosedd hon, a sut mae hyn yn gymesur â'r drosedd sydd i'w chreu?

| |
|---|
| Mae'r goblygiadau i unigolyn a ddyfernir yn euog o'r troseddau hyn (gweithredu y tu allan i'r cyfyngiad a pheidio â chydymffurfio â darpariaethau rhannu data) yn debygol o fod yn rhai byrdymor.<br><br>Gan mai sancsiynau sifil fydd pob un o'r troseddau hyn, mae'n debygol mai dirwyon fydd y math o gosbau a roddir.<br><br>Ystyrir bod y sancsiynau a gynigir yn ymateb cymesur i ddarparu gwasanaeth bysiau yng Nghymru yn groes i'r gofynion hyn. Er nad yw swyddogion yn rhagweld y bydd llawer o achosion o dorri'r cyfyngiad neu'r gofynion o ran darparu data ar ôl i'r gyfundrefn newydd gael ei chyflwyno, dylai bodolaeth sancsiynau perthnasol fod yn ddull o atal troseddu, sydd ei angen i ddiogelu gwerth contractau wedi'u masnachfreinio a nodau ehangach y Bil.<br><br>At hynny, mae creu sancsiynau sifil, a all gael eu gosod gan gomisiynwyr traffig, yn sicrhau bod gan y comisiynwyr traffig set gadarn o adnoddau at eu defnydd er mwyn sicrhau bod eu pwerau trwyddedu, rheoleiddio a chofrestru eraill mewn perthynas â bysiau a gwasanaethau bysiau yng Nghymru yn cael eu gweinyddu'n effeithiol. |

4.23. A yw'r ddeddfwriaeth hon yn gosod unrhyw ddyletswydd ar y sector cyhoeddus? Os ydyw, nodwch pa mor debygol yw hi, yn ôl eich asesiad chi, y bydd unigolion neu fusnesau yn cymryd camau yn erbyn y sector cyhoeddus am beidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gosod dyletswyddau ar y sector cyhoeddus, yn enwedig dyletswydd Gweinidogion Cymru i roi gwybod i gomisiynydd traffig os bydd y cyfyngiad wedi'i dorri a'r cyfyngiadau ar allu'r comisiynwyr traffig i osod sancsiynau.

Mae risg y gallai unigolion neu fusnesau gychwyn achos adolygiad barnwrol yn erbyn Gweinidogion Cymru neu gomisiynwyr traffig am fethu â chyflawni eu dyletswyddau neu fethu â chydymffurfio â gweithdrefnau perthnasol, fel y gwelwyd ym Manceinion Fwyaf.

Yn 2022, ceisiodd Stagecoach a Rotala adolygiad barnwrol mewn perthynas â phenderfyniad Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf i gyflwyno masnachfreinio, gan ddadlau nad oedd y prosesau cywir wedi'u dilyn mewn perthynas ag ymgynghoriadau. Fodd bynnag, dyfarnodd yr Uchel Lys fod yr awdurdod cyfun wedi dilyn y prosesau cywir, sef penderfyniad a gadarnhawyd wedyn gan y Llys Apêl.

Fodd bynnag, ystyrir bod y risg y caiff penderfyniadau eu herio yn isel. Byddem yn ceisio lliniaru'r risg o adolygiad barnwrol drwy weithgarwch ymgysylltu â'r farchnad tryloyw.

## 5. Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (HMCTS) a Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Cymru

### Amcangyfrif y newid i lwyth achosion y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd (gan gynnwys tribiwnlysoedd datganoledig)

5.1. Ydych chi’n disgwyl unrhyw newid i broses y Llysoedd neu'r Tribiwnlysoedd, neu gynnydd / gostyngiad yn nifer y ceisiadau / achosion i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF a / neu Dribiwnlysoedd Cymru wrth greu neu ddiwygio'r gyfraith hon? Rhowch amcangyfrif o'r newid i nifer yr achosion a fydd yn mynd drwy system y llysoedd yn gyffredinol, eglurwch unrhyw newidiadau i'r broses ac amlinellwch y dystiolaeth a'r ffynonellau sy'n cefnogi'r amcangyfrif hwn.

Nid yw swyddogion yn disgwyl unrhyw newid i broses y Llysoedd na'r Tribiwnlysoedd nac unrhyw gynnydd yn nifer y ceisiadau i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF o dan y cynigion hyn.

5.2. Cadarnhewch a fyddai'r llysoedd / tribiwnlysoedd o dan ddyletswydd i roi gwybod i awdurdodau rheoleiddio am unrhyw euogfarnau o dan y drosedd hon.

☒ Byddent
☐ Na fyddent (rhowch fanylion):

Dd/G

### Hawliau Apelio

5.3. A yw eich cynnig yn creu hawl newydd i apelio, apelio ymhellach neu lwybr tuag at adolygiad barnwrol? Os ydyw, sut ydych chi’n disgwyl y bydd y rhain yn cael eu trin (hynny yw, ai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF ynteu Tribiwnlysoedd Cymru fydd yn eu gweinyddu, ac a fydd yr apeliadau yn addas ar gyfer gwrandawiad rhithwir)?

☐ Nac ydy
☒ Ydy (rhowch fanylion):

Ydy, mae'r cynigion yn cynnwys darpariaethau i wneud y canlynol –

a. Galluogi gweithredwyr i apelio i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn penderfyniad gan gomisiynydd traffig i wneud gorchymyn yn gorfodi'r cyfyngiad.

b. Galluogi gweithredwyr i apelio i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn gorchymyn sy'n ymwneud â chadw gwybodaeth yn ôl.

c. Galluogi ceiswyr i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn : gwrthodiad Gweinidogion Cymru i ddyfarnu trwydded, amodau sy'n gysylltiedig â thrwydded, penderfyniad i ddirymu trwydded, penderfyniad i atal trwydded, hyd y cyfnod atal, neu'r amodau y mae'n ofynnol eu bodloni cyn y daw'r cyfnod atal i ben.

d. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau bennu amgylchiadau sy'n codi o ganlyniad i'r Bil y dylid eu trin fel "trosglwyddiadau perthnasol" fel y bydd Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 ("TUPE") yn gymwys yn yr achosion hynny. Mae TUPE ei hun yn darparu ar gyfer gwneud cwynion i'r Tribiwnlys Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth o dan amgylchiadau penodol. Er nad yw'r Bil ei hun yn effeithio ar hawliau apelio o dan TUPE, mae'n cadarnhau amgylchiadau lle y bydd TUPE (ac felly'r hawliau apelio hynny) yn gymwys.

5.4. Pwy fydd yn gwrando ar apeliadau sy'n deillio o unrhyw gamau gorfodi a gynhelir o dan y ddeddfwriaeth arfaethedig?

☒ Tribiwnlys Haen Gyntaf y DU
☒ Uwch Dribiwnlys y DU
☐ Tribiwnlys Apêl Cymru
☐ Llys Ynadon
☐ Llys y Goron
☐ Arall (rhowch fanylion):

5.5. Ydych chi'n disgwyl ehangu awdurdodaeth sy'n bodoli eisoes neu sefydlu awdurdodaeth tribiwnlysoedd newydd? Os ydych, a yw hyn wedi'i drafod ag Uned Tribiwnlysoedd Cymru / y Weinyddiaeth Gyfiawnder?

Dengys y wybodaeth a ddarparwyd yn gynharach yn y ffurflen hon y mathau newydd o achosion a fyddai'n cael eu gwrando gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf, yr Uwch Dribiwnlys, y Tribiwnlys Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth. Ni ddisgwylir i awdurdodaeth Tribiwnlys newydd gael ei sefydlu.

5.6. Pa gostau rydych chi'n eu rhagweld ac a oes gan eich is-adran bolisi y cyllid angenrheidiol i sefydlu'r drefn orfodi a'r gweithdrefnau apelio arfaethedig o fewn strwythur Tribiwnlysoedd Cymru?

Dd/G am nad ydym yn sefydlu cyfundrefn na mecanwaith apelio newydd o fewn strwythur Tribiwnlysoedd Cymru.

5.7. Pa bryd rydych chi'n rhagweld y bydd eich deddfwriaeth arfaethedig yn cael ei rhoi ar waith a pha bryd y bydd y gwrandawiadau apêl cyntaf yn cael eu cynnal?

Disgwylir i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2026. Caiff y darpariaethau allweddol a allai effeithio ar y system gyfiawnder eu cychwyn mewn pryd i'r contractau cyntaf gael eu rhoi ar waith, y disgwylir i hynny ddigwydd mewn rhai rhannau o Gymru o 2027 ymlaen.

**Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod**

5.8. I ba raddau y byddai'n briodol defnyddio dull amgen o ddatrys anghydfod (gan gynnwys cyfryngu)? Sut y bydd modd mesur llwyddiant y dull amgen hwn?

Mae'r Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod yn amhriodol yng nghyd-destun ein deddfwriaeth.

Bwriedir i'n sancsiynau arfaethedig ymdrin ag achosion o dorri'r cyfyngiad neu fethu â chydymffurfio â darpariaethau o ran data. Felly, dylai'r rhai sy'n torri'r rhain gael eu cosbi'n briodol. Ni fyddai'r Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod yn ffordd ymarferol o ddelio â hyn.

Gellir ymdrin ag unrhyw anghydfodau sy'n codi mewn perthynas â materion cytundebol o dan gyfraith contractau.

**Erlyn a Gorfodi**

5.9. Os mai ychwanegu trosedd newydd yw'r cynnig, a fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn erlyn diffynyddion? Os na fydd, nodwch pwy fydd yn erlyn.

Nid yw'r Bil yn creu unrhyw droseddau newydd y byddai angen eu herlyn.

5.10. A fydd y cynnig yn gofyn am systemau gorfodi ar gyfer dyledion sifil, sancsiynau sifil neu gosbau troseddol? Os bydd, pwy ydych chi'n disgwyl fydd yn eu gorfodi?

Pan fo comisiynydd traffig yn rhoi cosb ariannol am fethu â chydymffurfio â'r cyfyngiad neu ofynion i ddarparu gwybodaeth, mae'r Bil yn darparu y gellir adennill unrhyw swm y gorchmynnir iddo gael ei dalu drwy orchymyn llys fel pe bai'n daladwy o dan orchymyn llys.

**Rheolau Gweithdrefnol, Canllawiau Cosbau a Dedfrydu HMCTS**

5.11. Ydych chi'n rhagweld y bydd yn rhaid diwygio rheolau gweithdrefnol y Llysoedd a/neu'r Tribiwnlysoedd? Os ydych, beth yw'r dyddiad tebygol ar gyfer y newidiadau hyn?

Dd/G

5.12. A fydd y cynigion yn gofyn am diwygio canllawiau dedfrydu a/neu gosbau?

Dd/G

## 6. Cymorth Cyfreithiol a Ffioedd Llys

6.1. Pa dystiolaeth sydd y bydd modd i'r unigolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt sicrhau a fforddio:

a) cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol er mwyn i'w hachos gael gwrandawiad teg

b) ffioedd llys cysylltiedig

Beth fyddai'r costau cyfreithiol i bob parti mewn achos nodweddiadol, a pha ddarpariaethau sy'n bodoli i barti sy'n cael ei ganfod yn ddieuog adennill yr holl gostau cyfreithiol neu ran ohonynt?

a) Mae unigolion a sefydliadau y bydd y cynigion hyn yn effeithio arnynt (gweithredwyr) yn debygol o allu sicrhau a fforddio eu cynrychiolaeth gyfreithiol a'u cyngor cyfreithiol annibynnol eu hunain er mwyn sicrhau gwrandawiad teg ar gyfer eu hachos.
b) Mae'n debygol y byddant hefyd yn gallu fforddio'r ffioedd llys cysylltiedig.

Ni ragwelir y byddai'r achosion hyn yn rhai hir na chymhleth.

6.2. Pan weithredir eich cynnig, a yw'n debygol y bydd angen i unigolion geisio cyngor cyfreithiol a gwneud cais am gymorth cyfreithiol yn unrhyw un o'r meysydd canlynol? Darparwch dystiolaeth ategol ym mhob achos.

☐ Troseddol
☐ Sifil (gan gynnwys Teuluol)
☐ Ceisio Lloches
☒ Dim cymorth cyfreithiol ar gael (darparwch dystiolaeth ategol)

Ni all unigolion geisio cymorth cyfreithiol sifil o dan y cynigion hyn am nad yw'r troseddau yn perthyn i'r un o'r categorïau o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

6.3. Os bydd unrhyw effaith ar gymorth cyfreithiol, a fyddai costau'r cymorth hwn yn cynyddu neu'n gostwng (ac o faint)?

Dd/G

## 7. Y Gwasanaethau Rheoli Troseddwyr a Charchardai

### Yr Effaith ar Wasanaethau Carchardai EF

7.1. A fydd y cynigion yn arwain at newid yn nifer y troseddwyr sy'n cael eu cadw yn y carchar (gan gynnwys ar remánd) neu ar gyfnod prawf (gan gynnwys dedfrydau cymunedol)? Os byddant, rhowch amcangyfrif ynghyd â'r rhesymau dros yr amcangyfrif hwn, amcan o'r amserlen ar gyfer cyrraedd y nifer hwn o ddedfrydau, y dystiolaeth sy'n sail i hyn a ffynhonnell eich gwybodaeth.

| |
|---|
| Na fyddant. Nid yw'r cynnig hwn yn creu trosedd, dim ond sancsiynau sifil. |

7.2. A yw'r cynnig yn creu, yn dileu neu'n newid trosedd bresennol â dedfryd o garchar neu gyfnod prawf, neu'n newid hynt y troseddwyr drwy'r gwasanaeth carchardai / prawf? Os ydyw, rhowch fanylion, gan gynnwys yr effaith ddisgwyliedig ar y gwasanaethau prawf.

| |
|---|
| Dd/G |

## 8. Nodi'r Prif Effeithiau ar y System Gyfiawnder

### 8.1. Niferoedd (estynnwch y tabl os bydd angen):-

DS: ym mhob achos, dylech dybio ffigur blynyddol cyfartalog neu nodi'n glir os ydych yn ystyried cyfnod amser gwahanol. Os yw'n bosibl y bydd y ffigur yn sylweddol wahanol i'r cyfartaledd yn y blynyddoedd gweithredu cyntaf, rhowch wybodaeth ychwanegol yn y nodiadau isod.

| **Nodwch y llys neu'r tribiwnlys, neu'r gwasanaeth MoJ y bydd y cynnig hwn yn effeithio arno** | **Niferoedd** (rhowch amcangyfrif mewn rhifau a hefyd yr amrediad isaf-uchaf) | **Math** (ee lle mewn carchar, gwrandawiad tribiwnlys, cosb benodedig ac ati) | **Gwybodaeth ychwanegol** |
|---|---|---|---|
| Troseddau a Sancsiynau | Dd/G | Dd/G | |
| Cosbau Sifil | 0-8 | Cosb benodedig<br>Gwrandawiad Tribiwnlys os cyflwynir apêl | |
| Gwasanaethau Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF | 0-3<br><br>0-2 | Trwyddedu (gwrthod cais) – gwrandawiad Tribiwnlys os cyflwynir apêl<br>TUPE – gwrandawiad Tribiwnlys | Amcangyfrifir y bydd tua 0.5% o 100-300 o achosion TUPE y flwyddyn yn arwain at hawliadau tribiwnlys. |
| Tribiwnlysoedd Cymru | Dd/G | Dd/G | |
| Cymorth Cyfreithiol | Dd/G | Dd/G | |

### 8.2. Gwasanaethau Rheoli Troseddwyr a Charchardai (estynnwch y tabl os bydd angen; dim ond os yw'r gosb uchaf yn rhywbeth heblaw dirwy y dylech lenwi hwn)

| **Trosedd** | **Cosb Uchaf** | **Nifer yr erlyniadau y flwyddyn** (amcangyfrif mewn rhifau a'r isafswm-uchafswm) | **Y gyfran debygol a fydd yn cael dedfryd o garchar yn syth** | **Hyd cyfartalog tebygol dedfryd o garchar a roddir** |
|---|---|---|---|---|
| Dd/G | | | | |
| Nodiadau: | | | | |

**Cofiwch fod yn rhaid i unrhyw gostau neu arbedion a nodwyd o ganlyniad i unrhyw newidiadau i'r system gyfiawnder/gwaith ychwanegol gael eu cynnwys yn yr asesiad ariannol ar gyfer eich deddfwriaeth.**